



Dyfrffyrdd a Bywyd Gwylt

Asesiad o gyflwr asedau amgylcheddol



Canal &
River Trust



Glandŵr
Cymru

The Canal & River Trust in Wales



Cynnwys

Rhagair		3
Pennod 1	Cyflwyniad	4
Pennod 2	Asedau amgylcheddol - cynefinoedd	5
Pennod 3	Methodoleg yr arolwg	11
Pennod 4	Asesu cyflwr	13
Pennod 5	Datblygu camau gweithredu	16
Pennod 6	Cynllun peilot Camlas Mynwy ac Aberhonddu	19

Rhagair

Mae methodoleg yr arolwg hwn o gyflwr ein hasedau amgylcheddol wedi'i datblygu gan Glandŵr Cymru (Ymddiriedolaeth y Camlesi ac Afonydd yng Nghymru) ar y cyd ag ECUS. Rydym ni'n ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am ariannu'r gwaith hwn, drwy'r gronfa Buddsoddiad Cyfalaf Seilwaith Gwyrdd.

Y cynefinoedd – adeiladwaith yr amgylchedd naturiol – sydd fwyaf hanfodol i fywyd gwylt ein dyfrffyrdd ac mae sut mae'r cynefinoedd hyn yn cael eu rheoli yn effeithio ar y rhywogaethau y gallwn ddisgwyl eu gweld ar ein dyfrffyrdd. Er y gallwn osod fframweithiau cyffredinol bras ar gyfer yr hyn sy'n dda a beth ellir ei gyflawni ar ein dyfrffyrdd o ystyried y pwysau o du defnyddiau eraill ohonynt a chyfyngiadau gofod a lle, rhaid i'r union gamau rheoli ar gyfer unrhyw ddyfrffordd gael eu dylanwadu'n drwm gan y cyd-destun rhanbarthol a blaenoriaethau lleol.

Ein nod felly yw sicrhau bod amgylchedd y dyfrffyrdd yn y cyflwr gorau posibl, gan ystyried pwysau, cyfleoedd a buddiannau lleol.

Mae ein prosiectws Dyfrffyrdd a Bywyd Gwylt yn pennu'r fframwaith ar gyfer sicrhau bod y dull hwn o reoli dyfrffyrdd yn ennill ei blwyf, gan gyflwyno gweledigaeth ar gyfer y rôl mae amgylchedd naturiol camlesi Cymru yn gallu ei chwarae, ac yn ei chwarae, yn y dirwedd ehangach.

Mae'r elfen Llawlyfr o'r gyfres hon yn rhoi cipolwg ar yr amrywiaeth eang o gynefinoedd a bywyd gwylt rydym ni'n gofalu amdanynt ac yn tynnu sylw at rai enghreifftiau o blith llawer o sut rydym ni'n rheoli ein hamgylchedd naturiol i wneud gwahaniaeth.

Mae'r fethodoleg hon yn adeiladu ar y Llawlyfr i gyflwyno ffordd o asesu cyflwr y cynefinoedd allweddol hyn a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwella, ac mae'n cyflwyno enghraifft o gynllun peilot ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu yn y De-ddwyrain.

Y cynllun peilot yw'r cam cyntaf i gyflwyno'r dull gweithredu hwn. Mae mwy o waith gan Glandŵr Cymru i'w wneud, yn enwedig i ymgysylltu â staff a chontractwyr sy'n gweithio ar ein dyfrffyrdd, a chymunedau lleol a phartneriaid sy'n gweithio ochr yn ochr â ni, er mwyn trawsnewid y ffordd mae cynefinoedd camlesi yn cael eu rheoli a'u gwella.

1. Cyflwyniad i'r fethodoleg a pharatoi cynllun gweithredu

Amcan y fethodoleg hon yn fras yw datblygu sut mae dull unigryw Cymru o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy – fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) – yn cael ei roi ar waith mewn perthynas â'n dyfrffyrdd mewndirol.

Mae dyfrffyrdd mewndirol yn arbennig o addas ar gyfer datblygu dull o'r fath oherwydd mae natur y camlesi, â'u treftadaeth naturiol, adeiledig a chymdeithasol a'u dibyniaeth ar fod yn berthnasol ac yn bwysig i bobl leol er mwyn goroesi, yn golygu bod rhaid i waith Glandŵr Cymru fod yn gydnaws ag egwyddorion datblygu cynaliadwy er mwyn llwyddo.

I wneud hyn o fewn egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mae angen i ni:

- 1) Ddeall y manteision a'r gwerth cynhenid y gall asedau amgylcheddol ein rhwydwaith o ddyfrffyrdd eu darparu; gan gydnabod pa gyfyngiadau a roddir ar wireddu gwerth yr amgylchedd naturiol gan gyfyngiadau ffisegol a defnydd cymdeithasol / economaidd o'r dyfrffyrdd; ac felly nodi pa welliannau allai fod yn ymarferol.
- 2) Casglu tystiolaeth i bennu cyflwr presennol asedau amgylcheddol penodol y dyfrffyrdd a'u cyd-destun ar lefel y dirwedd; i nodi pa welliannau a fydd yn gwneud y cyfraniad gorau posibl at werthoedd a chydnerthedd yr ecosystem.
- 3) Annog rhagor o gyfranogiad gan randdeiliaid ar ein dyfrffyrdd er mwyn cynnwys partïon â diddordeb, yn cynnwys pobl leol ac eraill a fyddai'n barod i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu cynigion a chynlluniau cyflawni.
- 4) Cynnwys y gwelliannau sydd wedi'u targedu yng ngwaith Glandŵr Cymru, ei bartneriaid ac eraill sy'n gweithio ar gamlesi drwy bennu safonau lleol newydd ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyffredin, atgyweirio ac adfer; ac fel rhestr o ddyheadau lle gellir canfod adnoddau a phartneriaid i'w rhoi ar waith yn lleol.

Mae'r fethodoleg hon yn amlinellu sut rydym ni'n bwriadu rhoi'r camau hynny ar waith drwy:


- nodi pa gynefinoedd sy'n arbennig o bwysig i'n dyfrffyrdd mewndirol a beth sy'n cyfrannu at eu cyflwr (Penodau 2 a 4);
- cyflwyno methodoleg ymarferol ar gyfer arolygu ac asesu asedau naturiol dyfrffordd fewndirol i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella, gan ystyried y cyd-destun lleol (Penodau 3 a 4);
- diffinio beth ellir ei wneud yn nodweddiadol i wella eu gwerth o fewn y cyfyngiadau ffisegol a gofynion defnyddiau eraill; yn ogystal â sut mae addasu'r ddewislen o opsiynau gwella drwy ystyried y cyd-destun ar lefel y dirwedd a chyfyngiadau a chyfleoedd penodol dyfrffordd arbennig (Pennod 5); a
- chyflwyno enghraifft ymarferol o arolwg a'r gwaith cychwynnol o gynllunio camau gweithredu ar gyfer Camlas Mynwy ac Aberhonddu (Pennod 6).

2. Asedau Amgylcheddol Dyfrffyrdd - cynefinoedd

Mae dyfrffyrdd yn cyflwyno buddiannau lu yn economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae dyfrffyrdd, o'u hanfod, yn dirweddau artiffisial neu'n dirweddau sydd wedi'u haddasu'n helaeth ac mae eu gwerthoedd amgylcheddol yn adlewyrchu hyn. Efallai na fydd hi'n bosibl cael amgylcheddau dilychwin ar raddfa fawr oherwydd cyfyngiadau defnyddiau eraill a natur gul dyfrffordd, ond natur y dyfrffyrdd hyn yw eu cryfder hefyd mewn dwy ffordd:

Mae coridorau dyfrffyrdd yn gyfle i gael sawl math o gynefin mewn trawstoriad byr - coetir a phrysgwydd; dŵr agored a dŵr sy'n llifo; ffiniau ymylol; glaswelltir a gwrychoedd i gyd o fewn ychydig fetrau i'w gilydd:

- A Gwrych llwybr tynnu
- B Llwybr tynnu: gwair wedi'i dorri a gweirglodd
- C Llystyfiant ymylol: amrywio ar yr ochr allan, ymyl gwrych neu goetir yn aml
- D Dyfrol: dŵr agored



Enghraifft o drawstoriad o gamlas



Mae dyfrffyrdd yn goridorau cysylltu – yn cysylltu ardaloedd trefol a rhai gwledig ac yn galluogi bywyd gwylt i gysylltu ag ynysoedd o gynefin naill ai ar gyrion trefol neu mewn cefn gwlad sy'n cael ei reoli'n ddwys.

Golwg o'r awyr o goridor camlas, yn dangos amrywiaeth cynefinoedd a chysylltedd

2.1 Nodi cynefinoedd amgylcheddol

Aeth Glandŵr Cymru ati i nodi'r cynefinoedd a fyddai'n cyfrif fel y mathau o asedau i'w targedu yn dilyn rhaglen o ymgynghori â rhanddeiliaid. Diffiniwyd y mathau o asedau amgylcheddol i'w defnyddio yn y protocol fel a ganlyn.

Dŵr agored

Diffinnir ased dŵr agored fel yr ardal o ddŵr sydd wedi'i lleoli rhwng cynefinoedd ymylol neu olchfuriau'r gamlas gan amlaf, yn cynnwys dŵr agored a phlanhigion dyfrol o dan y dŵr a rhai sy'n arnofio ar yr wyneb. Mae'r ased hon yn cynnwys camlesi, afonydd y gellir eu mordwyo, cronfeydd dŵr, dociau a phyllau ochr ond nid yw'n cynnwys ffosydd porthi, pyllau ynysig a chyrrff dŵr dros dro.

Ffin ymylol

Mae'r ased ffin ymylol yn cynnwys ardaloedd pontio rhwng tir a dŵr yn cynnwys unrhyw llystyfiant sy'n codi o'r dŵr o flaen, y tu ôl, neu'n ffurfio gorchudd glannau'r gamlas. Mae'r ased hwn yn cynnwys llystyfiant sy'n codi o'r dŵr ac ardaloedd o is-haenau sy'n gallu cynnal llystyfiant sy'n codi o'r dŵr.

Gwrychoedd

At ddibenion yr arolwg hwn, diffiniwyd ased gwrychoedd fel llinell derfyn o goed neu lwyni dros 20m o hyd a llai na 5m o led yn y bôn, ar yr amod bod y coed neu'r llwyni fwy neu lai'n ddi-dor, neu wedi bod felly'n flaenorol. Byddai'r math hwn o ased yn cwmpasu'r canlynol:

- cloddiau cerrig neu furiau lle mae'r rhain yn bresennol ar y cyd â llinell o goed neu lwyni,
- gwrychoedd o lwyni 'traddodiadol',
- gwrychoedd o lwyni gyda choed a
- gwrychoedd bylchog iawn (lle gall pob rhan o brysgwydd fod yn llai na 20m o hyd, ond lle mae'r bylchau'n llai na 20m).

Coetiroedd

At ddiben yr arolwg hwn diffinnir ased coetir fel ardaloedd di-dor o llystyfiant sy'n cynnwys coed a/neu lwyni mwy na 5m o led yn bennaf. Mae'r ased hon hefyd yn cynnwys ardaloedd heb llystyfiant coediog lle mae fflora nodweddiadol o goetir yn tyfu ar y ddaear.

Glaswelltir

Diffinnir glaswelltir fel ardaloedd o llystyfiant planhigion sy'n cynnwys yn bennaf gweiriau, planhigion porfa neu rywogaethau cynefinol nad ydynt yn rhai coediog. Mae'r cynefin hwn yn cynnwys ymylon llwybrau tynnu, ochrau lociau, argloddiau, cefngloddiau cronfeydd dŵr ac ardaloedd amwynder.

Coed ar lan y gamlas

Mae'r ased coed ar lan y gamlas yn cyfeirio at goed mawr aeddfed sydd â gwerth amwynderol, hanesyddol neu esthetig – rhywogaethau aeddfed, brodorol gan amlaf sydd â diamedr o fwy na 75cm ar uchder y frest ac na fyddent yn cael eu cynnwys yn yr ased coetir neu wrychoedd. Ystyrir bod coed yn y categori hwn mewn cyflwr amgylcheddol da ac felly mae'r cofnodi wedi'i gyfyngu i bresenoldeb/absenoldeb.

Strwythurau

Mae dyfrbontydd, pontydd, twneli, a lociau, yn ogystal â bythynnod, warysau ac adeiladau eraill, wedi dod yn rhan annatod o dirwedd ein dyfrffyrdd, a gallant gyfrannu llawer at eu bioamrywiaeth. Yn gyffredinol, y strwythurau hyn wedi'u hadeiladu o garreg a mortar calch, sydd â'r gwerth mwyaf. Mae cyfoeth o fywyd ym mhob twll a chornel, yn gwneud y mwyaf o'r amodau llaith a'r cysgod o dan bontydd ac mewn twneli. Gan eu bod mor agos i'r dŵr, mae ein strwythurau'n cynnal cymunedau anghyffredin o amrywiol yn aml.

Gwarchodfeydd

Safleoedd dynodedig penodol fel SoDdGA ac ACA neu ardaloedd penodol o ddyfrffyrdd y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'u nodi i'w rheoli fel rhai o fudd i fywyd gwyllt. Gallant gynnwys llawer o gynefinoedd gwahanol neu gael eu rheoli ar gyfer un neu lawer o rywogaethau. Felly bydd y dull rheoli wedi'i deilwra i bob un o'r safleoedd hyn.

2.2 Nodi nodweddion arbennig

Mae'n bosibl nodweddu'n fras pob un o'r mathau o asedau drwy gyfeirio at nifer o nodweddion allweddol, y gellir eu defnyddio i roi gradd cyflwr i bob math o ased (gweler Pennod 4).

Mae'r nodweddion a bennir i bob math o ased a'r ymatebion profforma sydd ar gael yn y rhestr wirio wedi'u cynnwys yn Nhabl 1 isod.

Ased	Nodwedd	Arsylwad	
Dŵr agored	Clirder <i>Clir = gallu gweld y gwely, Cymylog = gallu gweld y gwely ar yr ymylon, Lleidiog = gwely ddim i'w weld</i>	Clir Cymylog Lleidiog	
	Amrywiaeth rhywogaethau	Llawer o rywogaethau dyfrol Ambell rywogaeth ddyfrol Dim rhywogaethau dyfrol	
		Dim neu fach iawn <5% Achlysurol 5-25% Aml 25-50% Toreithiog 50-75% Trechol >75%	
		Dangosyddion negyddol <i>Rhywogaethau planhigion ymledol risg uchel (Corchwyn, Rhedynen y dŵr, Dail- ceiniog, Pluen parot)</i>	Dim rhywogaethau ymledol risg uchel Rhywogaethau ymledol risg uchel yn bresennol Rhywogaethau ymledol risg uchel yn bresennol gyda gorchudd o >25%
	Cysgod	Dim neu ychydig iawn <5% o hyd y sianel mewn cysgod Aml – hyd at 50% o hyd y sianel mewn cysgod Toreithiog – mwy na 50% o hyd y sianel mewn cysgod Trechol > 75% o hyd y sianel mewn cysgod	
		Cyfleoedd rheoli	Wedi'u nodi yn y blwch testun rhydd lle bo'n berthnasol
	Ffin ymylol	Parhad	Parhaus – yn bresennol ar hyd >75% o hyd addas y glannau Lled-barhaus – yn bresennol ar hyd 50-75% o hyd addas y glannau Bylchog – yn bresennol ar hyd <50% o hyd addas y glannau Ffin ymylol yn absennol ond amodau addas posibl
			Amrywiaeth


Ffin ymylol	Dangosyddion negyddol	Dim rhywogaethau ymledol risg uchel
	<i>Rhywogaethau coetir ymledol risg uchel (Jac y neidiwr, clymog Japan, efwr enfawr, rhododendron)</i>	Rhywogaethau ymledol risg uchel yn bresennol Rhywogaethau ymledol risg uchel yn bresennol gyda gorchudd o >25%
	Cyfleoedd rheoli	Wedi'u nodi yn y blwch testun rhydd lle bo'n berthnasol
Glaswelltir	Parhad	Di-dor ar y cyfan – dim neu ychydig iawn o ardaloedd noeth
		Lled-barhaus – ardaloedd bach ond niferus o dir noeth
		Amharhaol – ardaloedd mawr o laswellt gyda thir noeth yn drech arnynt
		Gweddillion – ardaloedd bach o laswellt gyda thir noeth yn drech arnynt
	Amrywiaeth	Amrywiaeth - llawer o wahanol laswelltau a phlanhigion glaswelltir
		Rhai glaswelltau a phlanhigion gwahanol
		Un rhywogaeth drechol - ambell blanhigyn arall
	Dangosyddion negyddol <i>Rhywogaethau ymledol risg uchel o laswelltir (Jac y neidiwr, clymog Japan, efwr enfawr)</i>	Dim rhywogaethau ymledol risg uchel yn bresennol
		Rhywogaethau ymledol risg uchel yn bresennol
		Rhywogaethau ymledol risg uchel yn bresennol gyda gorchudd o >25%
Rhywogaethau ymledol risg uchel yn bresennol		
Ansawdd glaswelltir <i>Presenoldeb a digonedd o rywogaethau cynefinol (danadl, ysgall, dail tafol, helyglys, llwyni mwyar duon)</i>	Achlysurol – Ambell rywogaeth neu blanhigyn cynefinol yn bresennol	
	Gorchudd rhywogaethau cynefinol hyd at 50%	
	Gorchudd rhywogaethau cynefinol yn fwy na 50%	
Cyfleoedd rheoli	Wedi'u nodi yn y blwch testun rhydd lle bo'n berthnasol	
Coetir	Amrywiaeth	Cymysgedd o rywogaethau coed, isdyfiant a fflora daear brodorol
		Un neu fwy o rywogaethau coed â rhywfaint o isdyfiant a fflora daear
		Un rhywogaeth yn drech, prinder isdyfiant a fflora daear
	Dangosyddion negyddol <i>Rhywogaethau coetir ymledol risg uchel (Jac y neidiwr, clymog Japan, efwr enfawr, rhododendron)</i>	Dim rhywogaethau ymledol risg uchel Rhywogaethau estron (sycamorwydden) yn absennol.
		Dim rhywogaethau ymledol risg uchel Rhywogaethau estron (sycamorwydden) yn brin
		Rhywogaethau ymledol risg uchel yn absennol, rhywogaethau estron yn gyffredin
		Rhywogaethau ymledol risg uchel yn bresennol ar raddfa fach.
		Rhywogaethau ymledol risg uchel i'w gweld yn aml neu'n doreithiog
	Gwerth amwynder coetir	Uchel – nodwedd amlwg/arwyddocaol o'r dirwedd a/neu'n hygyrch i'r cyhoedd
		Cymedrol – rhywfaint o werth tirweddol
Isel - ddim yn hygyrch i'r cyhoedd a dim gwerth tirweddol o bwys		

Coetir	Lled	Coed o wahanol ddyfnder a phrysg parhaus >5m
		Un llinell o goed
		Llinell doredig o goed
	Parhad	Parhaus – yn bresennol ar hyd yr adran
		Llain doredig o goetir gyda bylchau amlwg
		Llai na 75% o gynefin addas o dan goed
		Tlawd – llai na 25% o gynefin addas o dan goed
	Strwythur coetir	Cymysgedd da o oed, coed aeddfed a recriwtio ifanc
		Gwael – coed o un oed/maint e.e. planhigfa
		Cysylltedd coetir
Cysylltedd da â chynefinoedd coediog eraill		
Dim cysylltedd â chynefinoedd coediog eraill ond cysylltedd â chynefinoedd lled-naturiol		
Ynysig, er enghraifft, mewn amgylcheddau trefol		
Cyfleoedd rheoli	Wedi'u nodi yn y blwch testun rhydd lle bo'n berthnasol	
Gwrychoedd	Parhad	Gwrych di-dor lle bo'n briodol
		Lled-barhaus – ambell i fwch, llai na 1.5m
		Bylchog – llai na 75% o orchudd mewn cynefin addas
		Wedi darford – llai na 25% o orchudd mewn cynefin addas
		Gwael - tenau a bylchog yn y bôn, ddim yn atal stoc rhag mynd a dod
	Amrywiaeth	Amrywiol – cymysgedd o rywogaethau coediog, isdyfiant a fflora daear brodorol
		Cymedrol - mwy nag un rhywogaeth goediog
		Amrywiaeth isel - un rhywogaeth yn drech, prinder isdyfiant a fflora daear.
	Dangosyddion negyddol <i>Rhywogaethau ymledol risg uchel mewn gwrychoedd (Jac y neidiwr, clymog Japan, efwr enfawr)</i>	Dim rhywogaethau ymledol risg uchel yn bresennol
		Rhywogaethau ymledol risg uchel yn bresennol ar <25% o hyd y gwrych
Rhywogaethau ymledol risg uchel yn bresennol ar >25% o hyd y gwrych		
Cysylltedd	Da – llawer o gysylltiadau â seilwaith gwyrdd cyfagos	
	Cymedrol – o leiaf un cysylltiad â seilwaith gwyrdd cyfagos	
Cyfleoedd rheoli	Gwael – dim cysylltiadau â seilwaith gwyrdd cyfagos	
		Wedi'u nodi yn y blwch testun rhydd lle bo'n berthnasol

Coed ar lan y gamlas	Rhywogaethau	
	DBH	Mae "diamedr uchder y frest" yn dangos aeddfedrwydd
	Gwerth amwynder	Asesiad goddrychol o bwysigrwydd tirwedd (e.e. un goeden aeddfed / rhes o goed).
	Strwythur ac iechyd	Asesiad sylfaenol o gyflwr
Strwythurau	Llystyfiant	Byddai llystyfiant coediog niweidiol o bosibl (e.e. coed ifanc sydd wedi plannu eu hunain) yn arwydd o gyflwr gwael; efallai y bydd angen rheoli iorwg ar gyfer atgyweiriadau strwythurol ond mae'n creu cynefin da (yn enwedig ar gyfer adar sy'n nythu) ac mae llystyfiant cyffredinol nad yw'n goediog yn awgrymu bod angen rhywfaint o reoli; dylid cadw llystyfiant pwysig nad yw'n goediog fel rhedyn, mwsogl ac ati lle bo'n bosibl.
	Addasrwydd cynefin (ystlumod)	Presenoldeb holltau a mynediad posibl i dyllau a allai gael eu defnyddio gan ystlumod i glwydo – asesiad cychwynnol o "botensial" yn unig (nid yw'n dweud a oes ystlumod yn bresennol ai peidio).

- 1 "Gwarchodfeydd" – Bydd nodweddion gwarchodfeydd yn safle benodol
- 2 Gweler 3.3.1 isod am statws Coed ar Lan y Gamlas yn yr arolwg
- 3 Gweler 3.3.2 isod – ychwanegwyd y categori hwn yn ystod cyfnod yr arolwg felly nid yw wedi'i gynnwys yn y peilot ym mhennod 6
- 4 Gwarchodfeydd (gweler y dudalen flaenorol). Bydd nodweddion gwarchodfeydd yn safle benodol.

Mae'r siart llif isod yn dangos sut aethpwyd ati i gynllunio a chyflawni'r arolwg o gamlas Mynwy ac Aberhonddu:



3. Dull yr arolwg

3.1 Cafodd nodweddion allweddol pob math o ased eu rhannu yn ôl y graddau cyflwr cyffredinol (gweler y tablau Asesu Cyflwr ym Mhennod 4) ac felly lluniwyd rhestr wirio safonol o opsiynau cyflwr y gallai arbenigwr annhechnegol ei chwblhau yn y maes i roi gradd o A i E i bob ased.

Gellir defnyddio'r rhestr wirio hon mewn sawl fformat, ond yn yr enghraifft beilot defnyddiwyd Arc GIS Survey 123 (sydd â'r fantais o allu cael ei ddefnyddio gyda dyfeisiau llaw fel ffonau clyfar neu lechi a defnyddio GPS y ddyfais i roi lleoliad cywir ar gyfer y data).

Mae'r ffurflen ar sgrin yn cynnwys lle ar gyfer testun rhydd a bocsys syml i'w ticio:

Dyluniwyd nodweddion a chategoriâu'r graddau drwy ymgynghori â rhanddeiliaid a chafodd y protocol ei dreialu ar lawr gwlad a'i fireinio yn ystod y peilot ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu (gweler Pennod 6).

3.2 Yn y peilot ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu, cynhaliwyd yr arolwg drwy rannu coridor y gamlas yn adrannau wedi'u diffinio gan leoliadau pontydd neu lociau bob rhyw gilometr. Ym mhob lleoliad, fe wnaeth y syrfêwr gerdded ar hyd yr adran gyfan i gael golwg gyffredinol arni cyn cwblhau ffurflen yr arolwg yn Arc 123Survey ar ddyfais llaw.

Ym mhob lleoliad cafodd y wybodaeth ganlynol ei chasglu cyn cwblhau'r asesiad o asedau amgylcheddol:

- Dyddiad yr arolwg
- Man cychwyn a gorffen yr adran (rhifau pontydd/lociau)
- Math o lan ar yr ochr allan (math o lan sydd fwyaf cyffredin)
- Math o lan ar ochr y llwybr tynnu (math o lan sydd fwyaf cyffredin)
- Presenoldeb/absenoldeb angorfeydd
- Defnydd tir cyfagos ar yr ochr allan
- Defnydd tir cyfagos ar ochr y llwybr tynnu
- Rhywogaethau gwarchoddedig sy'n bresennol (Enwi rhywogaethau sydd wedi'u cadarnhau)
- Potensial ar gyfer rhywogaethau gwarchoddedig (enwi rhywogaethau y mae cynefinoedd addas yno ar eu cyfer)
- Cyfleoedd rheoli (nodi unrhyw gyfleoedd rheoli amlwg ar y safle)
- Arsylwadau eraill (unrhyw beth arall perthnasol/diddorol)
- Mathau o asedau sy'n bresennol
- Potensial ar gyfer asedau yn yr adran os nad ydynt yn bresennol

Cafodd pob cofnod leoliad daearyddol drwy ffurflen yr arolwg a'i lanlwytho i weinydd cwmwl ESRI ar ôl ei gwblhau.

3.3 Ar ôl cwblhau'r arolwg, cafodd adborth syrfewyr ei goladu a'i ddefnyddio i roi argymhellion i fireinio rhagor ar ffurflen yr arolwg.

3.3.1 Roedd hyn yn cynnwys dileu "Coed ar lan y gamlas" o'r asesiad o gyflwr oherwydd yr amser mae'n ei gymryd i asesu'r elfen hon; diffyg cysylltiad clir rhwng data sy'n cael ei gasglu a chamau rheoli er budd bioamrywiaeth; a phryderon bod eu hasesiad ecolegol yn gorgyffwrdd ag asesiad diogelwch (mae coed ar lan y gamlas eisoes yn cael eu hasesu at ddibenion rheoli diogelwch y cyhoedd bob 2-4 blynedd).

3.3.2 Ychwanegwyd "Strwythurau" at yr asesiad yn ystod cyfnod yr arolwg (ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yng nghanlyniadau peilot Mynwy ac Aberhonddu).

3.3.3 Amseriad yr arolwg – Yn gyffredinol, mae'n well cynnal yr arolwg yn ystod y gwanwyn a'r haf (diwedd Mai tan ddechrau Hydref). Mae'n bosibl cynnal yr arolwg ar adegau eraill, ond gallai'r canlyniadau gael eu heffeithio yn sgil newidiadau mewn gorchudd llystyfiant, arwyddion o'r rhywogaethau sy'n bresennol, clirder y dŵr, ac ati.

3.4 Astudiaeth ddesg o gyd-destun – ochr yn ochr â'r arolwg ar droed, dylai trafodaethau gyda rhanddeiliaid nodi cymeriad y ddyfrffordd a'r cyd-destun ar lefel y dirwedd ar gyfer blaenoriaethau a chyfleoedd (gweler adran 6.1 am enghraifft Mynwy ac Aberhonddu o hyn).

Dylai'r cam hwn nodi nodweddion arbennig y ddyfrffordd a allai ddylanwadu ar yr hyn a allai neu a ddylai / na ddylai gael ei wneud o ran gwella cynefinoedd (gallai rhai mesurau i wella un cynefin gael effaith andwyol ar un arall, neu ar nodwedd economaidd neu gymdeithasol y ddyfrffordd).

Dylai nodi hefyd pa faterion cynefinoedd sy'n bwysig yn y coridor o amgylch y ddyfrffordd - pa gynefinoedd a rhywogaethau all y ddyfrffordd helpu i'w diogelu, cysylltu, ehangu? Beth mae pobl leol a darpar bartneriaid yn awyddus i'w wella?

Bydd y wybodaeth hon yn hanfodol wrth bennu pa gamau gweithredu i fwrw ymlaen â nhw a beth i'w flaenoriaethu (gweler adran 5.3 isod).

4. Asesu cyflwr

4.1 Roedd yr asesiad o gyflwr yn ceisio diffinio cwmpas pob arolwg mewn perthynas â phob math o ased. Ar sail canlyniadau'r gweithdy rhanddeiliaid mabwysiadwyd y categorïau cyflwr canlynol

- A. Da iawn, dim bygythiadau neu welliannau
- B. Da, peth cyfle i wella
- C. Boddhaol, cyfleoedd i wella
- D. Da, angen rheoli
- E. Diraddedig, angen rheoli sylweddol

4.2 Ar ôl cwblhau'r arolwg o'r gamlas, caiff yr holl gofnodion eu coladu a'u dadansoddi i bennu cyflwr pob ased amgylcheddol ar sail sut gwnaeth yr adran fodloni amrywiaeth o feini prawf fel y gwelir yn Nhabl 2 isod.

Y cynnig gwreiddiol oedd i roi sgôr rhifol i gyflwr pob nodwedd (5 ar gyfer "A" i lawr i 1 ar gyfer "E") ac yna creu algorithm yn seiliedig ar gyfanswm y sgôr a rheolau rheoli i roi Gradd Cyflwr gyffredinol i bob math o ased.

Fodd bynnag, yn y cam datblygu daeth yn amlwg y byddai'r asesiad cychwynnol bob amser yn cyd-fynd â'r gwerth nodwedd isaf – er enghraifft, lle'r oedd un nodwedd yn bresennol ar Radd Cyflwr D (e.e. rhywogaeth ymledol yn bresennol ond nid yn helaeth mewn cynefinoedd dŵr agored) barnwyd bod angen rheoli'r adran er gwaethaf presenoldeb nodweddion eraill â sgôr uchel.

Gellir cadw sgoriau Nodweddion i helpu â mân wahaniaethau o fewn graddau cyflwr ac wrth ystyried blaenoriaethu lleol ac asesu critigolrwydd (gweler adran 5.3 isod).

4.3 Mae graddau cyflwr cyffredinol pob nodwedd yn seiliedig ar y nodwedd â'r gwerth isaf.

Felly byddai rhan o Ddŵr Agored sydd wedi cael gradd "E" am glirder, "C/D" am amrywiaeth; "A" am algâu a llinad y dŵr; "A/B/C" ar gyfer rhywogaethau ymledol a "C" ar gyfer cysgod yn cael gradd "E" at ei gilydd oherwydd y sgôr am yr elfen glirder.

4.4 Gellir cyfrifo sgôr rhifol i roi mwy o fanylder i'r radd cyflwr gyffredinol. Er enghraifft, tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng un nodwedd ar radd E a'r holl nodweddion ar radd E.

I wneud hyn, adiwch werthoedd rhifol graddau nodweddion. Lle mae cyflwr yn rhychwantu sawl gradd, defnyddiwch y sgôr uchaf posibl:

Felly ar gyfer yr un enghraifft uchod, y sgôr rhifol yw 1 (ar gyfer "E"); adio 3 (ar gyfer "C/D"); adio 5 (ar gyfer "A"); adio 5 (ar gyfer "A/B/C"); adio 3 (ar gyfer "C"); a'r sgôr fyddai 17.

Tabl 2 – Graddau cyflwr a sgoriau nodweddion

Azed	Nodwedd	Cyflwr				
		A (5)	B (4)	C (3)	D (2)	E (1)
Dŵr agored	Clirder	Clir: Gwely i'w weld ar draws y sianel		Cymylog: Gwely i'w weld ar yr ymylon		Lleidiog: Gwely ddim i'w weld
	Amrywiaeth	Llawer o rywogaethau planhigion dyfrol yn bresennol		Rhai planhigion dyfrol yn bresennol		Dim planhigion dyfrol yn bresennol
	Algâu ffilamentog a llinad y dŵr	Dim neu ychydig iawn (<5%)	Achlysurol (llai na 25%)	Aml (hyd at 50%)	Toreithiog (hyd at 75%)	Trechol (dros 75%)
	Rhywogaethau ymledol	Absennol			Presennol	Toreithiog (>25%)
	Coed bargodol sy'n taflu cysgod (o leiaf 1m i mewn i'r sianel)	Dim neu ychydig iawn (<5%)		Aml (hyd at 50% o hyd y sianel mewn cysgod)	Mwy na 50% o hyd y sianel (e.e. mwy na 100% ar 1 ochr)	Mwy na 75% o hyd y sianel
Ffin ymylol	Parhad	>75%		50-75%	<50%	0%
	Lled Gyfartalog	>1 m	0.5-1 m		<0.5m	0%
	Amrywiaeth	Llawer o rywogaethau ymylol ac sy'n codi o'r dŵr yn bresennol		o leiaf 1 rhywogaeth sy'n codi o'r dŵr ac yn ffurfio ymyl yn bresennol		
	Rhywogaethau ymledol	Absennol			Presennol	Toreithiog (>25%)
Glaswelltir	Parhad	Di-dor ar y cyfan		Amharhaol – ardaloedd bach ond aml o bridd noeth, cywasgedig	Amharhaol – ardaloedd mawr ond aml o bridd noeth, cywasgedig	Gweddillion – lleiniau bach o laswellt yng nghanol pridd noeth helaeth
	Amrywiaeth	Llawer o wahanol rywogaethau o laswellt a phlanhigion (amrywiol)		Rhai glaswelltau a phlanhigion cymysg		
	Rhywogaethau ymledol	Absennol			Presennol	Toreithiog (>25%)
	Rhywogaethau Cynefinol (danadl, dail tafol, ysgall)	Ambell un yn bresennol		Hyd at hanner	Mwy na hanner	
Coetir	Amrywiaeth coed	Cymysgedd o rywogaethau coed, isdyfiant a fflora daear brodorol		Un neu ragor o rywogaethau coed gyda rhywfaint o isdyfiant a fflora daear		Un rhywogaeth yn drech, prinder isdyfiant a fflora daear
	Rhywogaethau ymledol	Rhywogaethau ymledol yn absennol. Rhywogaethau estron e.e. sycamorwydden yn absennol	Rhywogaethau ymledol yn absennol. Rhywogaethau estron e.e. sycamorwydden yn brin	Rhywogaethau ymledol yn absennol. Rhywogaethau estron i'w gweld yn aml	Rhai rhywogaethau ymledol yn bresennol	Rhywogaethau ymledol i'w gweld yn aml neu'n doreithiog

Coetir	Gwerth amwynder	Uchel (nodwedd bwysig / amlwg o'r dirwedd, a / neu'n hygyrch i'r cyhoedd)	Uchel (nodwedd bwysig / amlwg o'r dirwedd, a / neu'n hygyrch i'r cyhoedd)	Cymedrol (rhywfaint o werth tirweddol)	Isel	
	Lled	Coed neu brysgwydd parhaus o wahanol ddyfnder > 5m			Un rhes o goed	Rhes doredig o goed
	Parhad	Parhaus		Bylchau achlysurol < 1.5m	<75%	<25% / absennol
	Strwythur	Cymysgedd o oedran, cymysgedd o strwythurau			Un oed	
	Cysylltedd	cysylltedd â chynefinoedd coediog eraill		heb ei gysylltu â chynefinoedd coediog eraill, wedi'i gysylltu â chynefinoedd lled-naturiol eraill		ynysig mewn amgylchedd trefol
Gwrych	Parhad	Parhaus		Bylchau achlysurol < 1.5m	<75%	< 25% / absennol
	Natur ymarferol	Trwchus, gallu atal stoc			Tenau, ddim yn gallu atal stoc	
	Amrywiaeth	Cymysgedd o rywogaethau coed, isdyfiant a fflora daear brodorol		Un neu fwy o rywogaethau coed, isdyfiant a fflora daear brodorol	Un rhywogaeth yn drech, prinder isdyfiant a fflora daear	
	Rhywogaethau ymledol	Absennol	Absennol	Absennol	<25%	>25%
	Cysylltedd	Llawer o gysylltiadau â seilwaith gwyrdd cyfagos		O leiaf un cysylltiad â seilwaith gwyrdd cyfagos	Dim cysylltiadau	
Coed	Rhywogaethau	Ddim wedi'i asesu *gweler adran 3.3.1 uchod*				
	DBH					
	Gwerth amwynder					
	Strwythur ac iechyd					
Strwythurau	Llystyfiant	Llystyfiant meddal gwerth uchel – rhedyn, mwsogl ac ati	Gorchudd iorwg yn rhoi cynefin nythu	Dim llystyfiant neu llystyfiant meddal gwerth isel		Llystyfiant coediog â'r potensial i ddifrodi strwythurau
	Addasrwydd cynefin (ystlumod)	Llawer o dyllau / gorchudd llystyfiant / tystiolaeth o ystumod	Tyllau addas ar gyfer ystumod		Dim cynefin yn bresennol (oherwydd natur yr adeilad o bosibl)	Dylai'r strwythur fod yn addas ond nid oes cynefin yn bresennol (angen gweithredu)

4.5 Yn dilyn adborth syrfewyr ac ymgynghori pellach, cytunwyd na fyddai cyflwr coed gwerth uchel yn cael ei asesu gan y byddai pob coeden werthfawr yn cael ei hystyried fel un sydd mewn "cyflwr amgylcheddol da" yn ôl pob tebyg a'u bod eisoes yn cael eu cofnodi drwy fecanweithiau sy'n bodoli eisoes (gweler adran 3.3.1 uchod)

4.6 Ar ôl cwblhau'r broses asesu cyflwr, caiff pob ased amgylcheddol a'i gyflwr cysylltiedig ei phlotio ar GIS i roi trosolwg o bob adran o'r gamlas a math o ased (gweler Pennod 6 am enghraifft).

Gellir defnyddio'r data sylfaenol hwn ar gyflwr i lunio cynllun rheoli o gamau gweithredu gwella (gweler Pennod 5).

5. Datblygu camau gweithredu

Er mwyn troi gwybodaeth yr arolwg yn Gynllun Gweithredu drafft, rhaid cyfeirio at ddewislen o welliannau. Oherwydd natur safle-benodol a chydweithredol rheol adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a phenderfyniadau am newidiadau i ddyfrffyrdd yn arbennig oherwydd bod ganddynt sawl defnydd a gwerth, mae hyn yn gofyn am sawl fersiwn wahanol.

5.1 Gwelliannau Cyffredinol - Trwy nifer o weithdai yn cynnwys rhanddeiliaid, nododd tîm y prosiect feini prawf newid ar gyfer yr amryw gategoriâu o asedau a oedd yn integreiddio egwyddorion y cysyniad *Bigger; Better; More; Connected* o Adroddiad Lawton ar yr un pryd â chydabod dyletswyddau, cyfrifoldebau ac ymrwymiadau presennol Glandŵr Cymru.

Pennwyd amcanion a chyfarwyddiadau rheoli safonol ar gyfer gwahanol fathau o asedau a graddau cyflwr. Mae'r opsiynau gwella cyffredinol hyn yn cael eu llywio hefyd gan astudiaethau achos yn y llawlyfr Dyfrffyrdd a Bywyd Gwylt - gan nodi'r math o gamau gweithredu y gellir eu cynnwys fel rhan o waith cynnal a chadw neu eu cyflawni fel mentrau unigol heb effaith andwyol sylweddol ar ddefnyddiau a gwerthoedd eraill y dyfrffyrdd, yn amodol ar ymgynghori lleol ac asesu yn erbyn amcanion rheoli eraill ar gyfer yr adran benodol honno o ddyfrffordd. Maent yn cael eu llunio i allu cael eu cyflawni gan raglenni gwaith Glandŵr Cymru neu drwy gydweithio â rhanddeiliaid eraill.

Tabl 3 - Camau gweithredu gwella cyffredinol

Cynefin / safle allweddol	Gwelliannau Cyffredinol	Synergedd posibl â mesurau eraill
Dŵr Agored	Mesurau lliniaru Potensial Ecolegol Da y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr; yn cynnwys rheoli rhywogaethau planhigion dyfrol estron ymledol	Llystyfiant ymylol
	Rheoli rhai rhywogaethau anifeiliaid estron ymledol	
	Gwelliannau i ansawdd cemegol dŵr (paramedrau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr)	
	Gwarchodfeydd planhigion dyfrol neu waith plannu "yn y sianel"	
	Gwella ffiniau cyrs ar yr ymylon, creu gwelyau cyrs, gosod nysoedd cyrs, ac ati, i wella ansawdd dŵr	
	Mesurau i leihau gordyfiant algâu glaswyrdd ac algâu eraill	
Llystyfiant ymylol	Mesurau lliniaru arllwysyadau i wella ansawdd dŵr	Gwelliannau paramedrau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
	Carthu i leihau ailddaliant gwaddodion	
	Plannu ar yr ymylon i ymestyn / cysylltu'r cynefin neu gau bylchau ynddo	
	Gwelliannau "clawdd meddal/gwyrdd" neu gyflwyno ymyl cyrs a/neu adfer y clawdd meddal cyfagos	Carthu (gwaredu)
	Rheoli rhywogaethau planhigion estron ymledol	
	Plannu amrywiaeth yn yr ymyl presennol gyda rhywogaethau lleol brodorol	

Gwrychoedd	Plygu	Gwrychoedd marw
	Prysgoedio (rhywogaethau penodol neu wrychoedd hen iawn neu sydd wedi'u gorffustio)	Gwrychoedd marw
	Plannu mewn bylchau	
	Plannu i ymestyn neu gysylltu cynefin	
	Plannu amrywiaeth ym môn y gwrych; planhigion gwrych a fflora daear cysylltiedig	Cysylltu â mesurau glaswelltir ar gyfer peillwyr
	Rheoli rhywogaethau planhigion estron ymledol	
	"Gwrychoedd marw" ac adeiladu pentyrrau o bren ar gyfer bwystfilod bach a bywyd gwyllt arall	Cysylltu â mesurau glaswelltir ar gyfer peillwyr
Coed ar lan y gamlas	Gwarchod coed hynafol, aeddfed a gwerthfawr	
	Tocio ac aildocio tocbrennau aeddfed	
	Gadael i goed marw sefyll, a'u cynnal a chadw, lle mae'n ddiogel gwneud hynny	
Coetiroedd	Prysgoedio (ar gyfer rhywogaethau penodol)	Pentyrrau ar gyfer pryfed
	Plannu i gynyddu amrywiaeth rhywogaethau	
	Plannu neu ddull rheoli arall i gynyddu amrywiaeth gorchudd daear / isdyfiant / canopi	
	Gadael pren marw sydd wedi syrthio neu wedi ei dorri i lawr yn y fan a'r lle	
	Rheoli rhywogaethau planhigion estron goresgynnol	
	Adeiladu tasau o goed a thocion ar gyfer pryfed a bywyd gwyllt arall	
Glaswelltir	Lleihau dwysedd y torri	
	Dewis cymysgeddau o hadau brodorol sy'n tyfu'n arafach yn hytrach na chymysgeddau estron. Bydd hyn yn lleihau pa mor aml mae angen torri'r glaswellt	
	Gwirfoddolwyr i dorri a chribino glaswelltir sy'n gyforiog o rywogaethau	
	Rheoli rhywogaethau planhigion estron ymledol	
	Plannu neu hau ar gyfer amrywiaeth rhywogaethau	
	Newid y drefn ar gyfer budd amgylcheddol penodol megis gofyniad ar gyfer rhywogaethau gwarchoddedig	
SoDdGA	Cyflawni camau rheoli cadarnhaol y cytunwyd arnynt (Safle-benodol)	
Gwarchodfa natur anstatudol wedi'i datgan gan Glandŵr Cymru	Cyflawni camau rheoli cadarnhaol y cytunwyd arnynt (Safle-benodol)	
Strwythurau	Cadw a chreu cyfleoedd clwydo i ystlumod	
	Cadw a chreu cyfleoedd ar gyfer adar sy'n nythu, ymlusgiaid, amffibiaid, ac ati	
	Cadw fflora wal nad ydynt yn rhai coediog, planhigion is, rhedyn a sbyngau dŵr croyw, ac ati oni bai bod angen cael gwared â nhw er mwyn ail-bwyntio, am resymau gweithredol neu i ddiogelu strwythur treftadaeth. Dylid parhau i gael gwared â rhywogaethau planhigion coediog a llystyfiant arall sy'n achosi difrod	

5.2 Defnyddio'r data i gyd – pa gamau i'w gweithredu: mae'r tabl o ganlyniadau sylfaenol yr arolwg yn dangos pa rannau sydd â nodweddion y bydd angen gweithredu yn eu cylch (graddau "D" ac "E") neu y gellid eu gwella ymhellach (graddau "B" ac "C").

Gellir defnyddio camau gweithredu cyffredinol o dabl 3 i oresgyn problemau sy'n cael eu hamlygu gan y graddau cyflwr, er enghraifft, creu ffiniau ymylol lle mae'r rhain yn absennol.

Dylech ystyried cyfleoedd i fynd i'r afael â mwy nag un nodwedd gydag un cam gweithredu – er enghraifft, gall carthu wella clirder dŵr a gwaredu maetholion, ond gall y deunydd wedi'i garthu gael ei ddefnyddio i greu ffiniau ymylol.

Dylech ystyried pa mor ymarferol yw rhoi'r camau ar waith hefyd. Dylid osgoi camau gweithredu a fyddai'n amharu ar ddefnyddiau neu werthoedd eraill y ddyfrffordd (gweler 5.3 isod). Ar y llaw arall, gall y camau hynny y gellir eu hychwanegu at dasgau cynnal a chadw cyfredol (gwaith rheoli llystyfiant, carthu rheolaidd) gael eu cyflawni'n haws a byddant yn creu'r newid sylweddol yng nghamau rheolaidd Glandŵr Cymru rydym yn ceisio'i sicrhau. Mae rhai camau'n haws i alluogi gwirfoddolwyr a phartneriaid i'w cyflawni hefyd (yn enwedig camau nad oes angen offer mawr neu ddeunyddiau drud ar eu cyfer).

Fodd bynnag, mae angen archwilio'r cyd-destun lleol cyn rhoi camau cyffredinol ar waith.

5.3 Cyd-destun lleol a chritigolrwydd - Cyn ymrwymo i gamau gweithredu cyffredinol o Dabl 3, rhan annatod o'r Fethodoleg yw adolygiad desg o gyd-destun lleol yr arolwg – cymeriad y ddyfrffordd yn gyffredinol a blaenoriaethau ar lefel tirwedd (fel y nodir yn adran 3.4 uchod).

Rhaid i'r gwaith gosod cyd-destun hwn gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid lleol, yn cynnwys rheolwyr dyfrffyrdd a chynrychiolwyr defnyddwyr a grwpiau diddordeb allanol fel rheoleiddwyr perthnasol.

Bydd hyn yn helpu i nodi unrhyw gamau gweithredu y gellid eu blaenoriaethu'n lleol, neu na ddylid eu rhoi ar waith - naill ai i warchod nodwedd

arbennig neu'n unol â'r manteision economaidd neu gymdeithasol a gynigir gan y ddyfrffordd (er enghraifft, ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu, mae'r natur goediog yn golygu na fydd camau gweithredu i gael gwared â choed sy'n taflu cysgod ac felly i wella'r nodwedd ansawdd dŵr yn briodol, ac felly lle mae'r ased dŵr agored yn cael gradd wael ("D" neu "E") ar gyfer y nodwedd hon yn unig, ni ddylid cymryd unrhyw gamau. Hefyd mae cryn bwysau am angorfeydd ar y Gamlas ac mewn ardaloedd lle mae'r galw'n uchel, ni fydd gwelliannau'n ymarferol.

Gallai hyn olygu nad oes camau priodol ar gyfer adrannau sy'n cael gradd "D" ac "E".

Gallai hyn arwain hefyd at flaenoriaethu camau gweithredu penodol fel rhai arbennig o bwysig oherwydd natur y safle, dynodiadau neu bresenoldeb rhywogaethau gwarchoddedig neu bwysig.

Gellir defnyddio'r data hefyd i greu tabl "Dewislen leol o welliannau" wedi'i ddiweddarau i ddisodli tabl 3 – gan ystyried y cyd-destun, blaenoriaethau a chyfleoedd lleol (gweler adran 6.1 am enghraifft ymarferol o hyn ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu).

Bydd y blaenoriaethau lleol hyn hefyd yn dangos pa gamau gweithredu a nodweddion y dylem ganolbwyntio ein sylw arnynt – er enghraifft, caiff Camlas Mynwy ac Aberhonddu ei gwerthfawrogi fel coridor ar gyfer ystlumod, felly dylai cau unrhyw fylchau helaeth yn y llinell gwrych / pren / coed gael blaenoriaeth dros gamau gweithredu eraill yn y meysydd hynny.

Yn olaf, gall y sgôr rhifol cyffredinol helpu i neilltuo "critigolrwydd" i weithredu ar unrhyw adran benodol – cofiwch, po isaf yw'r sgôr, po fwyaf o nodweddion sydd wedi cael graddau cyflwr gwael ac felly po "waethaf" yw'r adran honno. Mae sgôr rhifol uchel yn dangos bod llai o broblemau i'w datrys (felly bydd hi'n haws "uwchraddio" yr adran). Ar y llaw arall, mae sgôr isel iawn yn arwydd o broblemau niferus a hwyrach y bydd cyflwyno gwelliannau yn sicrhau'r manteision gorau posibl.

5.4 Adolygu camau gweithredu drafft – Dim ond un cam yn y Cynllun Gweithredu yw cwblhau tabl o gamau gweithredu ar sail yr arolwg sylfaenol, gan ystyried y cyd-destun lleol.

Mae angen i'r broses o lunio'r Cynllun Gweithredu fod yn un ailadroddus a dylai'r drafft cyntaf o gamau gweithredu "lleol" gael eu trafod gyda chydweithwyr Glandŵr Cymru a rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud â rheoli'r ddyfrffordd; rhanddeiliaid lleol (yn enwedig defnyddwyr dyfrffordd) a darpar sefydliadau partner ar gyfer cysylltiadau â safleoedd cyfagos a chyfleoedd i gyflawni ar y cyd.

O wneud hyn, gellir osgoi gwrthdaro â manteision a defnyddiau eraill o'r ddyfrffordd; bydd rhanddeiliaid yn meithrin perchnogaeth o'r camau gweithredu; a bydd rhagor o gyfleoedd ar gyfer cyflawni effeithiol ac effeithlon yn cael eu nodi. Nid oes angen rhoi pwysau i sicrhau bod y Cynllun cyfan yn cael ei gyflawni mewn cyfnod byr. Ym mhob fersiwn ohono, bydd yr hyn y gellir ei gyflawni yn y byrdymor yn cael ei nodi a'i roi ar waith, a hwyrach y bydd camau gweithredu newydd yn cael eu hychwanegu at y Cynllun er mwyn eu hadolygu pan ddaw'r cyfle nesaf.

6. Cynllun Peilot Mynwy ac Aberhonddu

Fel rhan o'r prosiect i ddatblygu'r Fethodoleg hon, cafodd yr egwyddorion eu cymhwyso'n ymarferol i Gamlas Mynwy ac Aberhonddu yn y De-ddwyrain.

6.1 Asesiad lleol - Fel y nodwyd ym Mhennod 5 uchod, man cychwyn gweithredu'r Fethodoleg yn lleol yw ystyried y cyd-destun lleol - cymeriad y ddyfrffordd fel ag y mae; cyfleoedd a blaenoriaethau ar lefel y dirwedd; unrhyw gynlluniau cyfredol i newid dulliau rheoli a allai effeithio ar ddewisiadau neu gyfleoedd ar gyfer newid amgylcheddol.

Ar gyfer Camlas Mynwy ac Aberhonddu, roedd yr ymarfer hwn yn golygu trafod gydag aelodau o dîm amgylcheddol lleol Glandŵr Cymru; swyddogion Llywodraeth Cymru; ac adolygu'r wybodaeth oedd ar gael. O ganlyniad nodwyd y ffactorau allweddol canlynol:

Cymeriad y ddyfrffordd:

- Camlas wledig yn bennaf, yn rhedeg drwy neu wrth ymyl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog am rannau helaeth ohoni yw Camlas Mynwy ac Aberhonddu; wedi'i thorri ar gyfuchlin ar hyd y bryn yn bennaf;
- Coetir / gwrychoedd / llinellau o goed aeddfed, ar argloddiau'r llwybr tynnu ac i fyny'r llethr o'r Gamlas, yn gyffredin ac mae wyneb y dŵr dan gysgod mewn sawl man (gan gyfyngu ar y planhigion sy'n codi o'r dŵr ar yr ymylon);
- Mae'r gamlas yn gul (llai na 10m o led gan mwyaf) ac mae ar siâp dysgl fas - mae'n gyffredin i'r silt gael ei gynhyrfu gan symudiad cychod neu ddŵr ffo o'r tir i fyny'r llethr a phrin yw'r opsiynau ar gyfer mesurau "yn y sianel";
- Mae cryn dipyn o bwysau o du angori. Gan nad yw'r gamlas wedi'i chysylltu â'r rhwydwaith cenedlaethol o ddyfrffordd mewndirol, mae mwy na'r cyfartaledd o gychod hurio ar gyfer ymwelwyr. Mae hyn yn creu galw uchel am leoedd angori ar ochr y llwybr tynnu neu'r ochr draw ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i'r ffin ymylol fwrw gwreiddiau;
- Mae adeiladwaith y gamlas yn cynnwys sawl arglawdd sy'n agored i symud. Mae ail-leinio adrannau clai hanesyddol o wely'r gamlas yn beth cyffredin ac mae'n cyfyngu ar gyfleoedd i gael mwy o gynefinoedd naturiol.

Cyd-destun a chyfleoedd ar lefel y dirwedd

- Mae cysylltiad agos iawn rhwng y Gamlas ac ACA Afon Wysg, gan redeg ar hyd ochr ddeheuol dyffryn Wysg a thorri ar draws nifer o is-nentydd yn ogystal â'r brif afon ei hun;
- Mae'r cysylltiad tirwedd gyda'r Parc Cenedlaethol (y gamlas yw atyniad ymwelwyr mwyaf poblogaidd y Parc) yn golygu bod agor a chynnal golygfeydd o'r gamlas yn bwysig;
- Mae'r gamlas yn goridor pwysig ar gyfer ystlumod, yn enwedig Ystlumod Pedol Lleiaf sydd â man clwydo sydd wedi'i ddynodi'n ACA yn y dyffryn ger y gamlas ei hun. Mae'n hollbwysig bod natur "coridor coediog" y ddyfrffordd yn cael ei chadw;
- Fel mewn sawl ardal arall, mae gweithredu mewn perthynas â pheillwyr yn flaenoriaeth leol (ac un genedlaethol yng Nghymru) ar gyfer yr ardal;
- Mae gan y Gamlas potensial hefyd i fod yn goridor ehangu ar gyfer y Pathew - gyda chlystyrau helaeth o goed cyll a fyddai'n elwa ar ailgyflwyno dull cylchdro o reoli prysgoedio.

Mae hyn yn effeithio ar y ddewislen gwelliannau ar gyfer y Gamlas fel a ganlyn:

Tabl 4 - Dewislen leol o welliannau - tabl Gwelliannau Cyffredinol wedi'i ddiwygio i gynnwys addasiadau penodol ar gyfer Camlas Mynwy ac Aberhonddu

Cynefin / safle allweddol	Gwelliannau Cyffredinol	Synergedd posibl â mesurau eraill	Gwybodaeth benodol i Gamlas Mynwy ac Aberhonddu	Gwaith y byddem yn cynnwys y mesur hwn ynddo fel cwmpas / manyleb	
Dŵr Agored	Mesurau lliniaru Potensial Ecolegol Da y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr; yn cynnwys rheoli rhywogaethau planhigion dyfrol estron ymledol	Llystyfiant ymylol		Ail-leinio'r sianel	
	Rheoli rhai rhywogaethau anifeiliaid estron ymledol				
	Gwelliannau i ansawdd cemegol dŵr (paramedrau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr)		Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb, ond nodi pryderon am lwytho maetholion/silt o'r dalgylch yn effeithio ar Afon Gwy	Rheoli Dŵr	
	Gwarchodfeydd planhigion dyfrol neu waith plannu "yn y sianel"		Cyfluoedd cyfyngedig - camlas gul, fas		
	Gwella ffiniau cyrs ar yr ymylon, creu gwelyau cyrs, gosod ynysoedd cyrs, ac ati, i wella ansawdd dŵr				
	Mesurau i leihau gordyfiant algâu glaswyrdd ac algâu eraill				
	Mesurau lliniaru arllwysadau i wella ansawdd dŵr	Gwelliannau paramedrau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr	Arlwysadau ddim yn broblem arwyddocaol ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu		
	Carthu i leihau ailddaliant gwaddodion				
	Llystyfiant Ymylol	Plannu ar yr ochrau i ymestyn / cysylltu'r cynefin neu gau bylchau ynddo		lawn, ond wedi'i gyfyngu gan orchudd coetir/coed yn y coridor	Ail-leinio'r sianel
		Gwelliannau "glannau meddal/gwyrdd" neu gyflwyno ymyl cyrs a/ neu adfer y lan feddal gyfagos	Carthu (gwaredu)	lawn, fel rhan o safon ail-leinio	Ail-leinio'r sianel
Rheoli rhywogaethau planhigion estron ymledol					
Plannu amrywiaeth yn yr ymyl presennol gyda rhywogaethau lleol brodorol				Carthu	

Gwrychoedd	Plygu	Gwrychoedd marw	lawn, yn enwedig i ail-greu golygfeydd	
	Prysgoedio (rhywogaethau penodol neu wrychoedd hen iawn neu sydd wedi'u gorffustio)	Gwrychoedd marw	lawn, yn enwedig ar gyfer ailgyflwyno dull cylchdro o reoli coed cyll ar gyfer y pathew	
	Plannu mewn bylchau		lawn, er mwyn sicrhau coridor di-dor ar gyfer ystlumod	
	Plannu i ymestyn neu gysylltu cynefin		lawn, er mwyn sicrhau coridor di-dor ar gyfer ystlumod	Unrhyw waith sy'n effeithio ar gefn y llwybr tynnu (yn cynnwys gwaith arwynebu/ar yr arglawdd)
	Plannu amrywiaeth ym môn y gwrych; planhigion gwrych a fflora daear cysylltiedig	Cysylltu â mesurau glaswelltir ar gyfer peillwyr		Unrhyw waith sy'n effeithio ar gefn y llwybr tynnu (yn cynnwys gwaith arwynebu/ar yr arglawdd)
	Plannu a chynnal llwyni yn y gwrychoedd			
Coed ar lan y gamlas	Rheoli rhywogaethau planhigion estron ymledol			
	"Gwrychoedd marw" ac adeiladu pentyrrau o bren ar gyfer bwystfilod bach a bywyd gwylt arall	Cysylltu â mesurau glaswelltir ar gyfer peillwyr	lawn, ar gyfer deunydd sy'n deillio o waith arall ac yn gysylltiedig â pheillwyr	Unrhyw waith torri coed neu docion
	Gwarchod coed hynafol, aeddfed a gwerthfawr		Cadw fel nodwedd bwysig o dirwedd y gamlas ar y cyfan ac i gynnal llinell coridor ar gyfer ystlumod	
	Tocio ac aildocio tocbrennau aeddfed			
Coetiroedd	Gadael i goed marw sefyll, a'u cynnal a chadw, lle mae'n ddiogel gwneud hynny			
	Prysgoedio (ar gyfer rhywogaethau penodol)	Pentyrrau ar gyfer pryfed	lawn ar gyfer coed cyll - ailgyflwyno cylch rheoli 10-15 mlynedd	
	Plannu i gynyddu amrywiaeth rhywogaethau		lawn, yn enwedig o amgylch coedlannau coed cyll	Unrhyw waith sy'n tarfu ar goetir (h.y. ar gyfer mynediad)
	Plannu neu ddull rheoli arall i gynyddu amrywiaeth gorchudd daear / isdyfiant / canopi			Unrhyw waith sy'n tarfu ar goetir (h.y. ar gyfer mynediad)
	Gadael pren marw sydd wedi syrthio neu wedi ei dorri i lawr yn y fan a'r lle			
	Rheoli rhywogaethau planhigion estron goresgynnol			
	Adeiladu tasau o goed a thocion ar gyfer pryfed a bywyd gwylt arall			Gwaith ar goed

Glaswelltir	Lleihau dwysedd y torri		lawn, targedu gwelliannau at beillwyr	Torri gwair
	Dewis cymysgeddau o hadau brodorol sy'n tyfu'n arafach yn hytrach na chymysgeddau estron. Bydd hyn yn lleihau pa mor aml mae angen torri'r glaswellt			Unrhyw waith sy'n tarfu ar wynebâu glaswellt ac sydd angen eu hadfer - PEIDIWCH Â DEFNYDDIO CYMYSGEDD O AMWYNDERAU
	Gwirfoddolwyr i dorri a chribino glaswelltir sy'n gyforiog o rywogaethau			
	Rheoli rhywogaethau planhigion estron ymledol			
	Plannu neu hau ar gyfer amrywiaeth rhywogaethau		lawn, targedu gwelliannau at beillwyr	
	Newid y drefn ar gyfer budd amgylcheddol penodol megis gofyniad ar gyfer rhywogaethau gwarchoddedig		lawn, targedu gwelliannau at beillwyr	Torri gwair
SoDdGA	Cyflawni camau rheoli cadarnhaol y cytunwyd arnynt (Safle-benodol)		Rheoli dŵr (ACA Afon Wysg); cynnal coridor ar gyfer Ystlumod Pedol Lleiaf	Rheoli Dŵr; unrhyw waith ar goed a gwrychoedd neu waith i waredu coed
Gwarchodfa natur anstatudol wedi'i datgan gan Glandŵr Cymru	Cyflawni camau rheoli cadarnhaol y cytunwyd arnynt (Safle-benodol)		lawn, rhai safleoedd penodol	
Strwythurau	Cadw a chreu cyfleoedd clwydo i ystlumod		lawn, rhai safleoedd penodol	Ailbwytio; gwaith PPM
	Cadw a chreu cyfleoedd ar gyfer adar sy'n nythu, ymlusgiaid, amffibiaid, ac ati			
	Cadw fflora wal nad ydynt yn rhai coediog, planhigion is, rhedyn a sbyngau dŵr croyw, ac ati oni bai bod angen cael gwared â nhw er mwyn ail-bwytio, am resymau gweithredol neu i ddiogelu strwythur treftadaeth. Dylid parhau i gael gwared â rhywogaethau planhigion coediog a llystyfiant arall sy'n achosi difrod		lawn, rhai safleoedd penodol	Cirio llystyfiant PPM


6.2 Canlyniadau'r arolwg – cafwyd canlyniadau ar gyfer pum math o Ased o'r arolwg sylfaenol o Gamlas Mynwy ac Aberhonddu – Dŵr Agored; Ffin Ymylol; Glaswelltir; Coetir; a Gwrychoedd.

Cafodd pob un o'r rhain eu hasesu yn unol â'r Fethodoleg ym Mhenodau 3 a 4 a chafodd y canlyniadau eu plotio ar fapiau i ddangos yr

ardaloedd lle gallai fod angen gweithredu ac i roi trosolwg syml o gyflwr. Cafodd camau rheoli allweddol ar gyfer pob cynefin, yn benodol i gyd-destun Camlas Mynwy ac Aberhonddu, eu diffinio hefyd, fel a ganlyn:


Y camau rheoli allweddol ar gyfer cynefin Dŵr agored ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu yw:

- ymdrin â rhywogaethau estron;
- carthu (parhau â'r rhaglen gyfredol - ar draws y gamlas gyfan);
- er bod sawl adran o'r gamlas yn cael ei heffeithio gan gysgod, byddai gwaredu cysgod yn mynd yn groes i gymeriad coediog lleol;
- cyfleoedd cyfyngedig i wella amrywiaeth rhywogaethau dyfrol (lle nad ydynt wedi'u cyfyngu gan gysgod ac ati) a dylid manteisio arnynt lle bo'n bosibl.




Y camau rheoli allweddol ar gyfer cynefin Ffin ymylol ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu yw:

- Dylid manteisio ar gyfleoedd i gynyddu maint y ffin ymylol i ffwrdd oddi wrth safleoedd angori pan fydd cyfleoedd o'r fath yn codi e.e. drwy waith ail-leinio neu waredu deunydd carthu;
- Gwella parhad ffin amharhaol;
- Cael gwared â rhywogaethau ymledol



Y camau rheoli allweddol ar gyfer cynefin Glaswelltir ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu yw:

- Newid arferion torri gwair neu wneud gwaith plannu – lle mae gofod a defnydd yn caniatáu hynny – i ffafrio planhigion ar gyfer peillwyr





Y camau rheoli allweddol ar gyfer cynefin Coetir ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu yw:

- Prysgoedio coed cyll ar gyfer pathewod
- Rheoli coetiroedd yn gadarnhaol – amrywiaeth strwythur a phlannu mewn bylchau
- Cael gwared â rhywogaethau ymledol

Y camau rheoli allweddol ar gyfer cynefin Gwrych ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu yw:

- Plygu (ailgyflwyno dulliau rheoli traddodiadol, gwella golygfeydd)
- Gwella parhad – cau bylchau a phlannu o'r newydd
- Gwella amrywiaeth – plannu amrywiaeth o rywogaethau



6.3 Cynllun gweithredu Camlas Mynwy ac Aberhonddu

Mae'r tabl canlynol yn rhoi enghraifft o sut byddem yn cyflwyno'r graddau cyflwr ar gyfer cynefinoedd ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu, wedi'u rhestr fesul adran o gamlas at ddibenion yr arolwg, ac mae'n nodi'r camau cychwynol y gellid eu cymryd ynghyd â rhyw syniad o sut gellid cyflawni hyn. Dyma enghraifft o gynllun gweithredu cam cyntaf. Y camau nesaf fydd cynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ynghylch blaenoriaethu a chyflawni i nodi pa gamau y dylid eu rhoi ar waith a pha rai i'w gweithredu gyntaf. Arolygwyd 166 adran i gyd, ond rydym yn cyflwyno'r 13 adran gyntaf yma i ddangos y fformat.

Adran	Gradd Cylwr Dwr Agored	Cyflwyno	Gradd Cylwr Ffin Ymylol	Cyflwyno	Cyflwyno Ffin Ymylol	Cyflwyno	Gradd Cylwr Glaswelltr	Cyflwyno	Cyflwyno	Gradd Cylwr Coetr	Cyflwyno	Gradd Cylwr Gwyrchoedd	Cyflwyno	Cyflwyno	Gradd Cylwr Gwyrchoedd	Cyflwyno	Gradd Cylwr Gwyrchoedd	Cyflwyno
1	Diraddedig	Amh	Amh	Amh	Amh	Amh	Da	Amh	Amh	Boddhaol	Albiannu coed mewn bylchau	Gwael	Gwael	Albiannu coed mewn bylchau	Gwael	Plannu mewn bylchau ac i wella amrywiaeth	Prosiect / Gwirfoddolwyr	Prosiect / Gwirfoddolwyr
2	Gwael	Amh	Diraddedig	Gwella parhad	Gwella parhad	Gwella parhad	Da	Amh	Amh	Boddhaol	Plannu mewn bylchau	Gwael	Gwael	Plannu mewn bylchau ac i wella amrywiaeth	Gwael	Plannu mewn bylchau ac i wella amrywiaeth	Prosiect / Gwirfoddolwyr	Prosiect / Gwirfoddolwyr
3	Boddhaol	Amh	Gwael	Gwella parhad	Gwella parhad	Gwella parhad	Diraddedig	Amh	Amh	Da	Amh	Diraddedig	Diraddedig	Amh	Diraddedig	Plannu gwyrchoedd	Prosiect / Gwirfoddolwyr	Prosiect / Gwirfoddolwyr
4	Diraddedig	Amh	Gwael	Gwella parhad	Gwella parhad	Gwella parhad	Boddhaol	Amh	Amh	Boddhaol	Clirio rhywogaethau llawr, albiannu rhywogaethau brodorol	Boddhaol	Boddhaol	Albiannu mewn bylchau	Diraddedig	Albiannu mewn bylchau	Prosiect / Gwirfoddolwyr	Prosiect / Gwirfoddolwyr
5	Boddhaol	Amh	Gwael	Gwella parhad	Gwella parhad	Gwella parhad	Da	Amh	Amh	Boddhaol	Plannu mewn bylchau	Boddhaol	Boddhaol	Albiannu mewn bylchau	Gwael	Albiannu mewn bylchau	Prosiect / Gwirfoddolwyr	Prosiect / Gwirfoddolwyr
6	Gwael	Amh	Gwael	Gwella parhad	Gwella parhad	Gwella parhad	Da	Amh	Amh	Gwael	Plannu mewn bylchau	Gwael	Gwael	Gallai gwaith plygu gwrych diveddar gael ei osod ar hyd yr adran dan sylw	Diraddedig	Gallai gwaith plygu gwrych diveddar gael ei osod ar hyd yr adran dan sylw	Prosiect / Gwirfoddolwyr	Prosiect / Gwirfoddolwyr
7	Diraddedig	Amh	Diraddedig	Creu ffin ymylol	Creu ffin ymylol	Creu ffin ymylol	Da	Amh	Amh	Boddhaol	Amh	Boddhaol	Boddhaol	Amh	Diraddedig	Dim gwyrchoedd yn bresennol	Prosiect / Gwirfoddolwyr	Prosiect / Gwirfoddolwyr
8	Gwael	Amh	Diraddedig	Creu ffin ymylol	Creu ffin ymylol	Creu ffin ymylol	Da	Plannu amrywiaeth yn well	Prosiect / Gwirfoddolwyr	Boddhaol	Amh	Boddhaol	Boddhaol	Amh	Amh	Amh - dim gwyrchoedd	Prosiect / Gwirfoddolwyr	Prosiect / Gwirfoddolwyr
9	Gwael	Amh	Amh	Gwella parhad	Gwella parhad	Gwella parhad	Da lawn	Amh	Amh	Boddhaol	Amh	Boddhaol	Boddhaol	Amh	Diraddedig	Plannu gwyrchoedd	Prosiect / Gwirfoddolwyr	Prosiect / Gwirfoddolwyr
10	Gwael	Amh	Diraddedig	Amh	Amh	Amh	Da	Amh	Amh	Diraddedig	Plannu mewn bylchau	Boddhaol	Boddhaol	Amh	Boddhaol	Plannu mewn bylchau ac i wella amrywiaeth	Prosiect / Gwirfoddolwyr	Prosiect / Gwirfoddolwyr
11	Boddhaol	Amh	Gwael	Gwella parhad	Gwella parhad	Gwella parhad	Da	Amh	Amh	Da	Amh	Boddhaol	Boddhaol	Amh	Boddhaol	Plannu mewn bylchau ac i wella amrywiaeth	Prosiect / Gwirfoddolwyr	Prosiect / Gwirfoddolwyr
12	Gwael	Amh	Diraddedig	Amh	Amh	Amh	Da	Amh	Amh	Boddhaol	Amh	Boddhaol	Boddhaol	Amh	Amh	Amh	Prosiect / Gwirfoddolwyr	Prosiect / Gwirfoddolwyr
13	Da	Amh	Gwael	Gwella parhad	Gwella parhad	Gwella parhad	Da	Amh	Amh	Boddhaol	Amh	Boddhaol	Boddhaol	Amh	Gwael	Plannu mewn bylchau	Prosiect / Gwirfoddolwyr	Prosiect / Gwirfoddolwyr

6.4 Y Camau Nesaf

Cam cyntaf yn unig yw'r Cynllun Gweithredu hwn.

Ar ôl hyn byddwn yn ymgynghori â chydweithwyr lleol i sicrhau nad oes gwrthdaro â chynlluniau rheoli / defnyddiau eraill ac i drafod mecanweithiau cyflawni; gyda rhanddeiliaid lleol i sicrhau cefnogaeth ar gyfer cynigion; gyda darpar bartneriaid i drafod cyfleoedd i gydweithio er mwyn cyflawni.

Bydd camau cychwynol yn cael eu gweithredu a bydd y gwaith o adolygu data'r arolwg a diweddarau camau gweithredu yn parhau.

Bydd camau a gyflawnwyd a gwelliannau i raddau cyflwr asedau yn destun adroddiad blynyddol.

Bydd y broses hon yn ein helpu i gyflawni amcanion hirdymor Glandŵr Cymru o wella ein dyfrffyrdd ar gyfer bywyd gwyllt fel a ganlyn:

- Bydd ein dyfrffyrdd yn gynefinoedd gwych i fywyd gwyllt gydag o leiaf 90% o safleoedd a chyrrff dŵr â statws dynodedig statudol yn bodloni targedau cenedlaethol erbyn 2025.
- Bydd ein dyfrffyrdd a'n llwybrau tynnu yn ffurfio rhan o'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd ehangach ac yn cael eu gwerthfawrogi fel hafan i bobl a bywyd gwyllt, gyda chynnydd o 10% yn y cynefinoedd sydd mewn cyflwr gradd A i C erbyn 2025.

Glandŵr Cymru

Y Lanfa, Goflon, Y Fenni,
Sir Fynwy, NP7 9NY

Ff:0303 040 4040

E: customer.services@canalandrivertrust.org.uk

 [@GlandwrCymru](https://twitter.com/GlandwrCymru)

 www.facebook.com/canalrivertrust

Canal & River Trust

First Floor North, Station House, 500 Elder Gate,
Milton Keynes, MK9 1BB

Ff:0303 040 4040

E: customer.services@canalandrivertrust.org.uk

 [@CanalRiverTrust](https://twitter.com/CanalRiverTrust)

 www.facebook.com/canalrivertrust

Mae Glandŵr Cymru yn gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr gyda rhif cwmni 7807276 a rhif elusen 1146792.

Mae'r holl wybodaeth yn gywir wrth argraffu.

Llun y Clawr: Glas y Dorlan